**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1348

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Rhagfyr 2023

Annwyl Jack,

Ysgrifennodd y Pwyllgor Deisebau ym mis Hydref ynghylch gofal iechyd i bobl sy'n byw gyda syndromau Ehlers-Danlos (EDS) ac anhwylderau ar y sbectrwm hypersymudedd (HSD) yng Nghymru. Dywedais y byddwn yn gofyn i'm swyddogion adolygu'r ymholiadau ychwanegol a gafwyd gan Gymorth Ehlers Danlos y DU (EDSUK) o ran mynediad at ofal iechyd ar gyfer cleifion EDS a HSD.

Heriodd Cymorth Ehlers Danlos y DU drwy ofyn a oedd atgyfeiriadau priodol i riwmatoleg yn cael eu gwneud, a hefyd am statws EDS a HSD fel clefydau prin. Rwyf wedi ceisio barn bellach oddi wrth arweinwyr clinigol cenedlaethol ym maes clefydau prin a chyflyrau cyhyrysgerbydol.

Gan nad oes canllawiau NICE na BSR yn y maes hwn, mae'r adnodd EDS a ddarparwyd gan Gymorth Ehlers-Danloss y DU yn dweud: "*the key role of the GP at this moment in time is in diagnosing hEDS/HSD, validating the patient's symptoms and co-ordinating care*". Mae hyn yn cael ei gwblhau drwy asesiad trylwyr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nad oes unrhyw brofion meddygol penodol neu arbenigol ar gyfer EDS na HSD ar hyn o bryd. Mae'n disgrifio amrywiaeth o ymyriadau a ddylai fod ar gael o fewn y tîm gofal sylfaenol, megis ffarmacoleg a therapïau.

O ran atgyfeiriadau i ofal eilaidd, mae'r adnodd yn disgrifio meini prawf ar gyfer uwchraddio i wasanaethau genetig neu riwmatoleg mewn gofal eilaidd os bydd y diagnosis yn llai clir neu ar gyfer ystyried mathau eraill prin o EDS. Mae'r meini prawf uwchraddio hyn yn gydnaws â'r trothwyon atgyfeirio y cytunwyd arnynt gan wasanaeth genetig meddygol Cymru gyfan. Rydym yn disgwyl i'r meini prawf atgyfeirio hyn gael eu hystyried.

Maes o law, bydd Gweithrediaeth y GIG yng Nghymru yn cynnwys Rhwydwaith Strategol Cenedlaethol ar gyfer cyflyrau cyhyrysgerbydol  a rhwydwaith gweithredu ar gyfer clefydau

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

prin. Bydd y rhwydweithiau hyn yn gweithio ar y cyd i weld sut y gellid gwella llwybrau gofal. Mae'r arweinwyr clinigol wedi dweud y byddent yn awyddus i weithio gyda Chymdeithas Rhewmatolegwyr  Prydain, Cymorth Ehlers Danlos y DU, a thimau llwybrau cymunedol i ymchwilio i'r materion hyn mewn modd adeiladol.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services